JAMBORI
CWPAN Y BYD
WALES'S WORLD CUP SINGALONG

Helo!

Wel helo! Sut wyt ti?
Wel helo! Beth yw dy enw di?
Helo! Wyt ti'n ffrind i mi?
Helo! Helo! Helo!

Wyt ti'n hoffi'r un pethau â mi?
Wyt ti'n hoffi nofio yn nhonnau'r lli?
Wyt ti'n hoffi mynd ar wyliau haf
A gorwedd ar y traeth yn yr heulwen braf?
Wyt ti'n hoffi gweld Fishlock a'r bêl wrth ei throed?
A phawb yn gweiddi "CYMRU!" yn uwch nag erioed?
Wyt ti'n hoffi gweld Gareth Bale yn sgorio gôl?
Ac wyt ti'n hoffi roc a rôl?

Wel helo! Sut wyt ti?
Wel helo! Beth yw dy enw di?
Helo! Wyt ti'n ffrind i mi?
Helo! Helo! Helo!

Wyt ti'n hoffi'r Nadolig fy ffrind?
Wyt ti'n hoffi bwyta sglodion mewn papur gwyn?
Wyt ti'n hoffi gwrando ar fandiau da?
Wyt ti'n hoffi wyau Pasg a hufen iâ?
Beth am gemau cyfrifiadur a mynd am dro?
A mynd i bob un Steddfod, lle bynnag y bo?
Wyt ti'n hoffi'r holl bethau hyn? Wel dwed yn awr!
Os wyt ti, ry'n ni'n ffrindie mawr!

Wel helo! Sut wyt ti?
Wel helo! Beth yw dy enw di?
Helo! Wyt ti'n ffrind i mi?
Helo! Helo! Helo!

Wel helo! Sut wyt ti?
Wel helo! Beth yw dy enw di?
Helo! Wyt ti'n ffrind i mi?
Helo! Helo! Helo!

Urdd 100 1922 - 2022 S4C BBC CYMRU WALES Llywodraeth Cymru Welsh Government

Hello!

Well hello! How are you?
Well hello! It's good to meet you too.
Hello! We have so much to do!
Hello! Hello! Hello!

Do you like the same things as me?
Do you like to swim in the deep blue sea?
And go on a holiday
And lie on the beach in the sun all day?
Do you love to see Fishlock strike the "back of the net"
To cheers from the crowd? - It's as good as it gets!
Do you love to see Gareth Bale score a goal?
And do you love rock and roll?

Well hello! How are you?
Well hello! It's good to meet you too.
Hello! We have so much to do!
Hello! Hello! Hello!

Christmas Day? Do you like that!?
Do you like to eat your chips in a paper wrap?
Do you listen to your favourite bands?
Do you love Easter eggs and ice cream vans?
An hour or two of gaming then a dose of fresh air?
And visiting Eisteddfods no matter where?
If you like them all, you're a friend of mine
And we're gonna get along just fine!

Well hello! How are you?
Well hello! It's good to meet you too.
Hello! We have so much to do!
Hello! Hello! Hello!